# Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 2 - Y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 19 Hydref 2011** |
| Amser: | **09:00 - 11:34** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_300000_19_10_2011&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Ann Jones (Cadeirydd)**<br>**Peter Black**<br>**Janet Finch-Saunders**<br>**Mike Hedges**<br>**Mark Isherwood**<br>**Bethan Jenkins**<br>**Gwyn R Price**<br>**Ken Skates**<br>**Rhodri Glyn Thomas**<br>**Joyce Watson** |
| Tystion: | **Leighton Andrews, Y Gweinidog Addysg a Sgiliau**<br>**Edwina Hart, Y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth**<br>**Ceinwen Jones, Pennaeth, Welsh Language Development Unit**<br>**Reg Kilpatrick, Cyfarwyddwr, Local Government and Public Service**<br>**Owain Lloyd, Operations Team LGC**<br>**Roger Pride, Cyfarwyddwr Marchnata, BETS**<br>**Emyr Roberts, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Department for Education and Skills**<br>**Carl Sargeant, Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau** |
| Staff y Pwyllgor: | **Marc Wyn Jones (Clerc)**<br>**Sarah Bartlett (Dirprwy Glerc)** |

**Rhys Iorwerth (Ymchwilydd)**
**Jonathan Baxter (Ymchwilydd)**

---

## 1. Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2. Craffu ar gynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2012 – 2013

2.1 Carl Sargeant AC, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau

Cytunodd y Gweinidog i ddarparu nodyn ar faint y mae pob awdurdod lleol wedi'i gael o'r £54 miliwn o gyllid ychwanegol a ddyranwyd ar gyfer y setliadau cyflog cyfartal ac a gafodd ei ddefnyddio i'r diben hwn.

Cytunodd y Gweinidog i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am unrhyw ddatblygiadau mewn perthynas â chyflwyno deddfwriaeth ar y setliadau cyflog cyfartal.

Cytunodd y Gweinidog i ddarparu nodyn ar y trafodaethau â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ynghylch strwythuro a symleiddio sefydliadau mewn perthynas â darparu gwasanaethau.

Cytunodd y Gweinidog i ddarparu nodyn ar y broses o ddarparu Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ychwanegol.

Cytunodd y Gweinidog i ddarparu nodyn ar ba effaith y bydd y gostyngiad o 9.2 y cant mewn termau real yn y cyllid cyfalaf i fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau yn ei gael ar allu Llywodraeth Cymru i fodloni'r targedau yn y strategaeth Gweithio gyda'n Gilydd i Leihau Niwed.
2.2 Egwyl

2.3 Leighton Andrews AC, y Gweinidog Addysg a Sgiliau

Cytunodd y Gweinidog i ddarparu nodyn ar bolisi sgrinio'r iaith Gymraeg o fewn ei adran a phortffolios Gweinidogion eraill.
2.4 Edwina Hart AC, y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth

Cytunodd y Gweinidog i ddarparu rhestr fanwl o'r digwyddiadau y mae wedi'u cefnogi y tu allan i Gaerdydd a'r digwyddiadau arfaethedig yn y dyfodol.

## 3. Papurau i'w nodi
Nodwyd y papur.

## Trawsgrifiad
Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.